

Cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Felin

Adroddiad Ymgynghori



sirgar.gov.uk

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council



Yr Adain Moderneiddio Ysgolion

Sara Griffiths, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

Os oes angen y wybodaeth hon arnoch mewn print bras, mewn Braille, neu ar dâp sain, cysylltwch â'r Adran Addysg a Phlant

E-bost: aaprma@sirgar.gov.uk

Ffôn: 01267 246618

Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	1
Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol ..	4
Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig	31
Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn	33
Ymgynghori â Disgyblion	38
Opsiynau Eraill.....	40

Crynodeb Gweithredol

Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 22 Chwefror 2021, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin gynigion i:

- Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 22 Chwefror 2021, yr un pryd â chyhoeddi'r cynnig, a daeth i ben ar 16 Gorffennaf 2021. Daeth 40 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r digwyddiad ymgynghori â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law	
Arolwg ar-lein	Cyfanswm
40	40

Rhaid nodi bod pob un o'r 40 o ymatebion wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

Digwyddiadau Ymgynghori

Oherwydd goblygiadau parhaus pandemig y Coronafeirws, fe'n cynghorwyd i ohirio pob digwyddiad lle'r oedd rhyngweithio rhwng staff, rhieni a'r gymuned ehangach, ac, o ganlyniad, cafodd sesiynau galw heibio rhithwir eu cynnal drwy Microsoft Teams.

Anffurfiol

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio anffurfiol rhithwir cyn dechrau'r cyfnod ymgynghori ffurfiol gyda rhanddeiliaid perthnasol.

Ffurfiol

Cynhaliwyd sesiynau galw heibio ffurfiol rhithwir **ddydd Llun 8 Mawrth a dydd Mercher 10 Mawrth 2021 am 4:30pm am gyfnod o ddwy awr**. Mynychodd 43 o randdeiliaid sesiynau galw heibio yr ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r ymatebion a gafwyd wedi'u categorio i'r themâu canlynol:

Cefnogol

- Thema 1 – Cefnogaeth i'r cynnig
- Thema 2 – Cefnogaeth i'r Staff
- Thema 3 – Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach
- Thema 4 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg
- Thema 5 – Mae'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru
- Thema 6 – Dim rheswm

Pryderon

- Thema 1 - Gwaredu'r Dewis
- Thema 2 – Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach
- Thema 3 – Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus
- Thema 4 – Gorfodi'r Gymraeg
- Thema 5 – Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Thema 6 – Ymdopi â'r Gymraeg
- Thema 7 – Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn
- Thema 8 – Trafnidiaeth a Theithio i Ysgolion Eraill
- Thema 9 – Trosglwyddo i Ysgolion Cyfrwng Saesneg
- Thema 10 – Cefnogaeth i'r Staff
- Thema 11 – Dim Rheswm/Camliwio Data

Ddim yn siŵr

- Thema 1 - Gwaredu'r Dewis
- Thema 2 – Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Thema 3 – Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn

Crynodeb Cyffredinol

Cefnogol	42.5%	Ddim yn gefnogol	50%	Ddim yn siŵr	7.5%
----------	-------	------------------	-----	--------------	------

Gweithdai

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 16 Gorffennaf 2021, cynhaliwyd gweithdy i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law.

Y Camau Nesaf

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet (a elwid gynt yn Fwrdd Gweithredol) a allai benderfynu cyhoeddi'r cynnig fel yr ymgynghorwyd yn ei gylch gydag addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynnig a chadw'r sefyllfa bresennol, neu ail-lunio'r cynnig yn sylweddol ac ailymgynghori.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol, caiff hwn ei gyhoeddi maes o law.

Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
Sylwadau Cefnogol a Gafwyd				
1.	<u>Cefnogaeth i'r cynnig</u> Nododd ymatebwyr fod y cynnig ar gyfer Ysgol y Felin yn syniad ardderchog. Bydd y cynnig ar gyfer Ysgol y Felin yn rhoi cyfle i bob disgybl fod yn ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddatblygu dwyieithrwydd yn y gymuned. Mae dwyieithrwydd yn cynnig llawer o fanteision i'r holl ddisgyblion ac ni ddylid ystyried dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais. Dylai pob disgybl gael cyfle i elwa ar yr holl fanteision sydd ynghlwm wrth fod yn ddwyieithog.	Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg ddwyieithog y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd dwyieithrwydd dros amser yn dod yn fwyfwy o sgil y mae cyflogwyr yn chwilio amdani. Er	7	18%

		enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith. Nodwyd y gefnogaeth.		
2.	<u>Cefnogaeth i staff</u> Mae ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ond yn gofyn i'r awdurdod ddarparu gwersi am ddim i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn yr ysgol.	Mae'r ysgolion wedi eu clustnodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith. Yn hytrach na chyfyngu ar gyfleoedd i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, bydd y cynnig hwn yn helpu'r staff i wella eu sgiliau Cymraeg. Bydd "Athrawon Bro" yn darparu hyfforddiant i aelodau o'r staff sy'n llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg a bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn darparu cymorth hyfforddiant i unrhyw aelodau o'r staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg. Hefyd rhoddir cymorth drwy gyrsiau Sabothol Cenedlaethol yn ogystal â Chymraeg i Oedolion. Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion staff ar bob lefel ieithyddol. Mae cyrsiau pynciau penodol, ystafelloedd dosbarth ac iaith achlysurol ar gael bellach.	1	3%

		Nodwyd y gefnogaeth.		
3.	<u>Cyfleoedd addysg y disgyblion a'u cyfleoedd bywyd diweddarach</u> Mae ymatebwyr yn credu bydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith niweidiol ar addysg a sgiliau Saesneg y disgyblion, ac yn rhoi plant o dan anfantais o ran mynd i addysg bellach neu uwch, ac, yn ddiweddarach mewn bywyd, wrth wneud cais am swyddi ac ati. Credir na fydd yr holl ddisgyblion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid nodi mai'r iaith fwyaf cyffredin a ddefnyddir o ddydd i ddydd, yn y byd gwaith a'r byd busnes, yw Saesneg, ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r iaith Saesneg er mwyn sicrhau eu bod mor llwyddiannus â phosibl yn y byd go iawn.	Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol ac ymchwil a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyddestun lleol. Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod plant dwyieithog, ar gyfartaledd, yn cael graddau uwch yn yr iaith Saesneg. Dylid nodi hefyd, ar gyfartaledd, fod 80% o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ennill graddau A*-C yn yr iaith Gymraeg a Saesneg. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgîl mwyfwy pwysig yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros	2	5%

		gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith. Mae ysgolion yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc fynychu prifysgolion ym mhedwar ban byd, ac ni ddylid ystyried y Gymraeg yn anfantais. Yn hytrach na bod yn rhwystr, mae nifer o brifysgolion, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod meddu ar sgiliau Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n gallu bod yn fanteisiol pan fydd person ifanc yn cystadlu am le i astudio. Nodwyd y gefnogaeth.		
4	<u>Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg</u> Mae ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig gan y bydd yn cynyddu nifer y Siaradwyr Cymraeg yn y gymuned a Sir Gaerfyrddin, yn unol â nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Dyma'r ffordd gywir ymlaen i'r ysgol a bydd yn helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn dychwelyd i'n cymunedau.	Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddynt fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Nodwyd y gefnogaeth.	1	3%

5.	<u>Mae'r cynnig yn glynu wrth bolisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru</u> Mae ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig gan ei fod yn cyd-fynd â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol a "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg" Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnig yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn glynu wrth bolisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, gyda'r nod penodol o wella'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, o wella safonau'r addysg honno ac o addysgu'r Gymraeg. Mae'r cynnig yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei nod o gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau dilyniant ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd, fel bod pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo'r cynnig presennol ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal gan ei fod yn credu'n gryf bod hyn er lles addysg y plant. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb hefyd i ddilyn ei bolisïau ei hun ochr yn ochr â pholisïau Llywodraeth Cymru. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a chamau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u	2	5%
----	---	---	---	----

		cynnwys yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin. Ar 25 Mehefin 2018, lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio cyflawni'r deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig: • Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. • Deilliant 2 – Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. • Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg. • Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a • Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Cafodd y gefnogaeth ei nodi.		
6.	<u>Dim rheswm</u> Nid oedd ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.			

		Cafodd y gefnogaeth ei nodi.	7	18%
Pryderon a Godwyd				
1.	<u>Gwaredu'r Dewis</u> Mae gan ymatebwyr bryderon ynghylch dileu'r dewis o addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol a dylai'r rhieni hynny gael dewis pa iaith y dylid addysgu eu plant ynddi.	Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn	3	8%

		mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg. Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Mehefin 2018 lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf. Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig: • Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. • Deilliant 2 – Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. • Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg.		
--	--	--	--	--

		• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a • Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Mae dewis yn fater pwysig wrth ystyried y cynnig hwn, a'r elfen bwysicaf ohono yw'r dewis sydd ar gael i blant wrth iddynt fynd yn eu blaen drwy eu haddysg a'u bywydau cynnar. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog gyda'r sgiliau i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae cynnig yr Awdurdod Lleol i ddatblygu plant sy'n ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd yn rhoi dewis i blant wrth iddynt symud ar hyd y sector addysg. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu plant dwyieithog yn y sector cynradd yw eu trochi mewn addysg cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd caiff ei dderbyn yn y proffesiwn addysg nad yw astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc gwir ddwyieithog, ac mae'r ysgol wedi'i chlustnodi'n un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.		
--	--	--	--	--

2.	<u>Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach</u> Mae ymatebwyr yn bryderus y bydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith andwyol ar addysg disgyblion a'u sgiliau iaith Saesneg, ac yn gosod plant dan anfantais o ran cael addysg bellach neu addysg uwch, ac yn ddiweddarach mewn bywyd pan fyddant yn gwneud cais am swyddi ac ati. Credir na fydd yr holl ddisgyblion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid nodi mai'r iaith fwyaf cyffredin a ddefnyddir o ddydd i ddydd, yn y byd gwaith a'r byd busnes, yw Saesneg, ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r iaith Saesneg er mwyn sicrhau eu bod mor llwyddiannus â phosibl yn y byd go iawn.	Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol ac ymchwil a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol. Ar gyfartaledd, noda'r Awdurdod Lleol fod plant dwyieithog yn ennill graddau uwch ym mhwc Saesneg iaith. Dylid nodi hefyd, ar gyfartaledd, fod 80% o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ennill graddau A*-C yn yr iaith Gymraeg a Saesneg. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgîl mwyfwy pwysig yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar	1	3%
----	--	---	---	----

		sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith. Mae ysgolion yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc fynychu prifysgolion ym mhedwar ban byd, ac ni ddylid ystyried y Gymraeg yn anfantais. Yn hytrach na bod yn rhwystr, mae nifer o brifysgolion, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod meddu ar sgiliau Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n gallu bod yn fanteisiol pan fydd person ifanc yn cystadlu am le i astudio.		
3.	<u>Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus</u> Mae'r ymatebwyr yn nodi bod y trefniadau ieithyddol presennol yn yr ysgol yn gweithio'n dda ac nid oes angen newid. Nododd ymatebwyr dylai'r ysgol aros yn un ddeuol, gan ei bod yn rhoi dewis i bobl y gymuned leol ym mha iaith maent yn dymuno i'w plant gael eu haddysgu yn y sir, a bod hynny o fudd i'r sir gan fod y rhai sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg yn gallu siarad â mwy o blant nad ydynt yn siarad Cymraeg.	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod yr ysgol yn perfformio'n dda ac yn llwyddiannus. Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol sicrhau canlyniadau sy'n gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o	6	15%

		aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg. Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Mehefin 2018 lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf. Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig: • Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. • Deilliant 2 – Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.		
--	--	---	--	--

		• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg. • Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a • Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Mae'n bwysig nodi bod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwmm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddant yn gadael yr ysgol gynradd. Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwmm iaith.		
--	--	---	--	--

4.	<u>Gorfodi'r iaith Gymraeg</u> Mae ymatebwyr yn bryderus y dylai'r gymuned gael dewis pa un ai i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg ar neb. Mae'n bwysig dysgu'r iaith Gymraeg ac efallai y bydd rhai disgyblion am ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni fydd pob disgybl am dderbyn ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd gorfodi'r Gymraeg yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, a dweud y gwir, i'r gwrthwyneb. Bydd gweithredu'r cynnig yn gorfodi disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, a fydd yn golygu na ddaw'r disgyblion i gysylltiad â'r Gymraeg.	Mae'r cynnig yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol. Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol. Mae'n bwysig cofio bod yr iaith Saesneg yn dal i gael ei haddysgu a'i datblygu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hyd at y safonau uchaf, fel rhan statudol o'r cwricwlwm. Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin yn ogystal â datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae	2	5%
----	--	---	---	----

		Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn yr ysgol yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.		
5.	<u>Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</u> Mae ymatebwyr yn bryderus efallai na fydd plant ag anghenion addysgol arbennig neu anghenion dysgu ychwanegol yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd angen addysg cyfrwng Saesneg arnynt o bosibl. Mae'n annheg cymryd yn ganiataol y bydd pob plentyn sydd ag AAA/ADY yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. O ran y cynnig hwn, bydd y gefnogaeth a roddir yn yr ysgolion i'r plant presennol sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg ynddi ar hyn o bryd. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd holl ddisgyblion y dyfodol yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra i'w hanghenion. Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi'i datblygu gryfaf i gefnogi a hybu	2	5%

		dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol a sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni. Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol. Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol neu uned arbenigol i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad		
--	--	---	--	--

		prif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni leoliad arall. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol, megis awtistiaeth, namau synhwyrdd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Phlant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser. Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol. Dylid nodi nad yw'r cynnig hwn yn effeithio ar y trefniadau presennol yn yr Uned arbennig yn Ysgol y Felin.		
6.	<u>Ymdopi â'r Gymraeg</u> Mae ymatebwyr yn bryderus na fyddai'r holl blant yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig disgyblion o	Bydd yr ysgol yn dal i ddarparu cefnogaeth i'r disgyblion presennol drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg drwyddi ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig rhoddir digon o	3	8%

	gefndiroedd di-Gymraeg. Hefyd mae pryderon y bydd rhieni di-Gymraeg yn ei chael yn anodd cefnogi a helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol a'u gwaith cartref pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.	gefnogaeth i'r holl ddisgyblion newydd, yn ôl anghenion pob unigolyn. Hefyd mae'n bwysig nodi ei bod yn ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r angen i ddiwallu anghenion pob disgybl. Yn ogystal bydd "Athrawon Bro" sy'n rhoi cefnogaeth i ysgolion ledled y sir yn cefnogi'r ysgol. Bydd Canolfannau Trochi yn yr Iaith Gymraeg hefyd ar gael i'r disgyblion hynny y gallai fod angen mewnbwn ychwanegol arnynt yn ieithyddol. Ar hyn o bryd mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion teuluoedd unigol yn y dyfodol. Mae sawl sefydliad a ddaeth i'r sesiwn galw heibio ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cynnig cefnogaeth a chymorth i'r gymuned o ran datblygu'r iaith Gymraeg.		
7.	<u>Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn</u> Mae ymatebwyr yn bryderus na fydd rhieni'n gallu chwarae rhan actif yn addysg y plentyn.	Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plant ei wneud. Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe ddylai, felly, fod o fewn cyrraedd eich plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n	3	8%

		ddysgwyr annibynnol, efallai y bydd y rhieni yn gweld eu bod yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol ganddynt hwy. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol.		
8.	<u>Trafnidiaeth a Theithio i Ysgolion Eraill</u> Mae ymatebwyr yn credu ei bod yn annheg disgwyl i rieni gludo disgyblion i ysgolion eraill er mwyn cael addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Bydd hyn yn cael effaith ariannol ar deuluoedd ac yn cymryd mwy o amser.	Gan na fydd dim newidiadau yn achos disgyblion presennol yr ysgol, o ganlyniad ni fydd angen i unrhyw blentyn gael ei symud o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod holl ddisgyblion y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys goblygiadau o ran cludiant. Os bydd unrhyw rieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydynt yn ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni fydd cludo eu plant i'r ysgol.	1	3%

9.	<u>Trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg</u> Mae ymatebwyr yn credu ei bod yn annheg bod disgyblion sy'n dymuno/sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall y tu allan i'w dalgylch. Hefyd, teimlir bydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n cael anhawster â'r iaith Gymraeg drosglwyddo i ysgol arall.	Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol. Darperir cymorth digonol i holl ddisgyblion y dyfodol, yn unol ag anghenion yr unigolyn. Gweler pwynt 6 sy'n cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac a fydd yn dal i gael eu darparu i'r holl ddisgyblion a rhieni o ran yr iaith Gymraeg. Gweler pwynt 5 sy'n cyfeirio at ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, a'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i'r disgyblion ac a fydd yn dal i gael eu darparu iddynt.	2	5%
10.	<u>Cefnogaeth i staff</u> Mae ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig ond yn gofyn i'r awdurdod ddarparu gwersi am ddim i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg yn yr ysgol	Mae'r ysgolion wedi eu clustnodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith. Yn hytrach na chyfyngu ar gyfleoedd i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg,	1	3%

		bydd y cynnig hwn yn helpu'r staff i wella eu sgiliau Cymraeg. Bydd "Athrawon Bro" yn darparu hyfforddiant i aelodau o'r staff sy'n llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg a bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn darparu cymorth hyfforddiant i unrhyw aelodau o'r staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg. Hefyd rhoddir cymorth drwy gyrsiau Sabothol Cenedlaethol yn ogystal â Chymraeg i Oedolion. Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion staff ar bob lefel ieithyddol. Mae cyrsiau pynciau penodol, ystafelloedd dosbarth ac iaith achlysurol ar gael bellach. Cafodd y gefnogaeth ei nodi.		
11.	<u>Dim rheswm</u> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu gwrthwynebiad.		6	15%
Ddim yn siŵr				
1.	<u>Gwaredu'r Dewis</u> Mae gan ymatebwyr bryderon ynghylch dileu'r dewis o addysg cyfrwng Saesneg yn	Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar	1	2.5%

	yr ysgol a dylai'r rhieni hynny gael dewis pa iaith y dylid addysgu eu plant ynddi.	gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg. Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Mehefin 2018 lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.		
--	--	---	--	--

		Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig: • Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg. • Deilliant 2 – Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. • Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg. • Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a • Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin. Mae dewis yn fater pwysig wrth ystyried y cynnig hwn, a'r elfen bwysicaf ohono yw'r dewis sydd ar gael i blant wrth iddynt fynd yn eu blaen drwy eu haddysg a'u bywydau cynnar. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog gyda'r sgiliau i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae cynnig yr Awdurdod Lleol i ddatblygu plant sy'n ddwyieithog erbyn iddynt		
--	--	---	--	--

		adael yr ysgol gynradd yn rhoi dewis i blant wrth iddynt symud ar hyd y sector addysg. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu plant dwyieithog yn y sector cynradd yw eu trochi mewn addysg cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd caiff ei dderbyn yn y proffesiwn addysg nad yw astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc gwir ddwyieithog, ac mae'r ysgol wedi'i chlustnodi'n un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.		
2.	<u>Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</u> Mae ymatebwyr yn ansicr ynghylch y cynnig ac yn pryderu pa effaith y bydd hyn yn ei chael ar blant ag anawsterau dysgu ac oedi lleferydd neu awtistiaeth sy'n mynychu Ysgol y Felin. Mae enw da gan yr ysgol o ran darparu ar gyfer plant ag anawsterau dysgu	Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd. O ran y cynnig hwn, bydd y gefnogaeth a roddir yn yr ysgolion i'r plant presennol sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg ynddi ar hyn o bryd. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd holl ddisgyblion y dyfodol yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra i'w hanghenion. Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a	1	2.5%

		monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi'i datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol a sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni. Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.		
--	--	--	--	--

		Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol neu uned arbenigol i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad prif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni leoliad arall. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol, megis awtistiaeth, namau synhwyraidd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Phlant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser. Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol.		
--	--	--	--	--

		Dylid nodi nad yw'r cynnig hwn yn effeithio ar y trefniadau presennol yn yr Uned arbennig yn Ysgol y Felin.		
3.	<u>Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn</u> Mae ymatebwyr yn poeni na fydd rhieni'n gallu chwarae rhan actif yn addysg y plentyn.	Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plant ei wneud. Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe ddylai, felly, fod o fewn cyrraedd eich plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y bydd y rhieni yn gweld eu bod yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol ganddynt hwy. Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol.	1	2.5%

Ymateb Estyn i'r cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Felin

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Crynodeb/Casgliad

At ei gilydd, mae'r cynnig yn debygol o gynnal neu wella safon darpariaeth addysg yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae awdurdod lleol Sir Gâr yn cynnig newid natur darpariaeth y cyfnod sylfaen yn Ysgol y Felin yn Felin-foel, Llanelli. Mae'r ysgol yn ysgol gynradd â dwy ffrwd sy'n darparu addysg i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed. Mae'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a Saesneg ar draws dwy ffrwd iaith. Ar hyn o bryd, mae rhieni'n dewis ffrwd iaith i'r plant o'r dosbarth Derbyn ymlaen.

Adeg y cynnig, mae pedwar dosbarth cyfrwng Cymraeg a phum dosbarth cyfrwng Saesneg yn yr ysgol. Mae disgyblion y dosbarthiadau Saesneg yn dysgu Cymraeg fel ail iaith, a chaiff y dosbarthiadau Cymraeg eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae awdurdod lleol Sir Gâr yn cynnig, o 1 Medi 2022, y bydd natur darpariaeth y cyfnod sylfaen yn Ysgol y Felin yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg, yn hytrach na chael dewis o ddwy ffrwd. Mae'r awdurdod yn cynnig y bydd hyn yn effeithio ar ddisgyblion sy'n dechrau yng nghyfnod sylfaen yr ysgol o fis Medi 2022 ymlaen yn unig, ac ni fydd yn effeithio ar ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol ar hyn o bryd.

At ei gilydd, mae'r awdurdod wedi amlinellu sail resymegol briodol ar gyfer y cynnig ac wedi ystyried y manteision a'r anfanteision disgwylidiedig, yn gyffredinol, o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Yn benodol, mae'r awdurdod wedi ystyried i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn ei Gynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (WESP) a sut byddai'r cynnig yn ehangu darpariaeth Gymraeg. Mae hefyd

wedi cynnwys yn briodol asesiad o'r effaith ar y gymuned ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, yn rhan o'r ddogfen ymgynghori. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn nodi sut bydd yn mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ganddo, fel y posibilrwydd o golli disgyblion i ysgolion eraill.

Nid yw'r cynigiwr yn nodi'r mater o rieni yn nalgylch yr ysgol a all ddewis anfon eu plentyn i ysgol arall os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, nac yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddigon da. Er enghraifft, nid yw'n nodi'r pellter i ysgolion lleol eraill, sut y gellid effeithio ar yr amser y mae'n ei gymryd i ddisgyblion deithio i'r ysgol, na sut y bydd polisi'r Cyngor o ran cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn berthnasol.

Ymddengys bod y cynnig yn mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod sylfaen yn yr ysgol. Mae'r cynigiwr wedi amlinellu sut mae nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg yn y cyfnod sylfaen yn Ysgol y Felin wedi gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae nifer y rhai sy'n mynychu ffrwd Gymraeg y cyfnod sylfaen wedi cynyddu. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn cynnig unrhyw wybodaeth am nifer y disgyblion yn yr ysgol y tu hwnt i 2020 i ddangos a yw'r tueddiadau hyn yn debygol o barhau. Mae'r awdurdod lleol wedi datgan yn synhwyrol y bydd yn adolygu'r ddarpariaeth ieithyddol yng nghyfnod allweddol 2 yn y dyfodol, er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd posibl yn y galw am leoedd. Mae'n bwysig bod yr awdurdod yn parhau i fonitro'r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn yr ysgol er mwyn i'r ddarpariaeth barhau i fodloni'r galw.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi arweiniad defnyddiol i rieni a phobl eraill ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn amlinellu'n briodol sut mae'r newid yn adlewyrchu uchelgeisiau'r awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi sylwebaeth ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol, sydd wedi'i seilio ar adroddiad arolygu Estyn o fis Medi 2016, gan mwyaf. Er bod ychydig o sylwadau mwy diweddar yn y testun, mae'n dibynnu gormod ar yr hyn a ddarparwyd yn yr adroddiad arolygu bum mlynedd yn ôl.

Yn ogystal, nid yw'r ddogfen ymgynghori yn cynnwys manylion am sut byddai'r cynnig yn cryfhau neu'n newid effeithiolrwydd darpariaeth neu safonau yn yr ysgol. Er enghraifft, er bod y ddogfen ymgynghori'n cyfeirio at fanteision 'Darpariaeth Drochi Gynnar drwy Gyfrwng y Gymraeg', nid yw'n rhoi digon o fanylion am yr effaith y gallai hyn ei chael yn yr ysgol benodol hon. Hefyd, nid yw'r ddogfen yn cynnwys digon o wybodaeth am sut byddai darparu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf yn y cyfnod sylfaen yn gwella darpariaeth a dysgu i ddisgyblion yn yr ysgol hon.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at ganolfan anghenion addysgol arbennig (AAA) sy'n cynnwys dau ddosbarth asesu ac arsylwi'r cyfnod sylfaen, uned iaith a dosbarth cyfnod allweddol 2 i ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol (Canolfan ADD). Uned bwrpasol yw'r Ganolfan sydd ynghlwm wrth adeilad yr ysgol, sy'n cynnwys dosbarth yr Uned Iaith a'r dosbarthiadau Arsylwi ac Asesu. Fodd bynnag,

nid yw'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'n glir a fydd y ddarpariaeth iaith ar gyfer y disgyblion hyn yn newid ac, os felly, pa effaith y gallai hyn ei chael ar ddisgyblion. Mae'r awdurdod wedi rhoi ystyriaeth ofalus i sut i leihau'r aflonyddwch i ddysgwyr, a bydd yn rhoi'r newid ar waith i ddisgyblion sy'n dechrau yn y cyfnod sylfaen o fis Medi 2022. Ni fydd yn effeithio ar ddisgyblion sydd yn y cyfnod sylfaen ar hyn o bryd

Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y ddarpariaeth a'r safon addysg bresennol yn yr ardal. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn

At ei gilydd, mae'r awdurdod wedi amlinellu sail resymegol briodol ar gyfer y cynnig ac wedi ystyried y manteision a'r anfanteision disgwylidig, yn gyffredinol, o gymharu â'r sefyllfa bresennol. Yn benodol, mae'r awdurdod wedi ystyried i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn ei Gynllun Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (WESP) a sut byddai'r cynnig yn ehangu darpariaeth Gymraeg. Mae hefyd wedi cynnwys yn briodol asesiad o'r effaith ar y gymuned ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg, yn rhan o'r ddogfen ymgynghori.

Mae'r awdurdod lleol wedi datgan yn synhwyrol y bydd yn adolygu'r ddarpariaeth ieithyddol yng nghyfnod allweddol 2 yn y dyfodol, er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd posibl yn y galw am leoedd.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi arweiniad defnyddiol i rieni a phobl eraill ar fanteision addysg cyfrwng Cymraeg, ac yn amlinellu'n briodol sut mae'r newid yn adlewyrchu uchelgeisiau'r awdurdod lleol yn ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Materion a godwyd gan Estyn ac Ymateb yr ALI

1. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr yn nodi sut bydd yn mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd ganddo, fel y posibilrwydd o golli disgyblion i ysgolion eraill.

Ymateb yr ALI

Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol. Darperir cymorth digonol i holl ddisgyblion y dyfodol, yn unol ag anghenion yr unigolyn.

Gweler **pwynt 6, tudalen 20 uchod** sy'n cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac a fydd yn dal i gael eu darparu i'r holl ddisgyblion a rhieni o ran yr iaith Gymraeg.

Gweler **pwynt 5, tudalen 17 uchod** sy'n cyfeirio at ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, a'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i'r disgyblion ac a fydd yn dal i gael eu darparu iddynt.

2. Nid yw'r cynigiwr yn nodi'r mater o rieni yn nalgylch yr ysgol a all ddewis anfon eu plentyn i ysgol arall os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, nac yn mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddigon da. Er enghraifft, nid yw'n nodi'r pellter i ysgolion lleol eraill, sut y gellid effeithio ar yr amser y mae'n ei gymryd i ddisgyblion deithio i'r ysgol, na sut y bydd polisi'r Cyngor o ran cludiant rhwng y cartref a'r ysgol yn berthnasol.

Ymateb yr ALI

Mae'n gyffredin i ddisgyblion symud rhwng dalgylchoedd ysgolion a hynny ledled y wlad mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn cael blaenoriaeth o ran mynychu ysgolion eu dalgylch dros blant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Fodd bynnag, gall rhieni ddatgan eu bod yn ffafrio ysgol, nad yw'n ysgol dalgylch ddynodedig, ac maent yn gwneud hyn am sawl rheswm, e.e. cyfleustra i deulu estynedig yn achos rhieni sy'n gweithio, hwylustod cludo plant, agosrwydd y cartref i ysgolion, enw da, darpariaeth, ffydd ac ati. Pan fydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgol arbennig, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys natur y ddarpariaeth.

Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol yn yr ysgol. Bydd Ysgol y Felin yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.

Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys goblygiadau o ran cludiant. Os bydd unrhyw rieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydynt yn ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni fydd cludo eu plant i'r ysgol.

3. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod lleol yn cynnig unrhyw wybodaeth am nifer y disgyblion yn yr ysgol y tu hwnt i 2020 i ddangos a yw'r tueddiadau hyn yn debygol o barhau.

Ymateb yr ALI

Mae'r amcanestyniadau'n seiliedig ar y rhifau CYBLD a gawn gan ein holl ysgolion ym mis Ionawr bob blwyddyn. Yn anffodus, yn y flwyddyn ddiwethaf hon cafodd y diwrnod CYBLD ei ohirio tan fis Ebrill oherwydd Covid. Defnyddir y wybodaeth hon i gyfrifo'r cyfartaleddau ar gyfer pob ysgol er mwyn cael y ffigurau rhagamcanol am y 5 mlynedd nesaf. Nid yw'r ffigurau rhagamcanol yn rhoi rhaniad ieithyddol i ni.

AMCANESTYNIADAU DISGYBLION yn seiliedig ar ddata Ionawr 2020 (Ac eithrio pob Disgybl Meithrin)

Ysgol	Cyfanswm Gwirionedd ol Disgyblion (Cyfrif Pennau) Ion 20	Rhagamcanion - Cyfanswm Disgyblion (Cyfrif Pennau) Ion 21	Rhagamcanion - Cyfanswm Disgyblion (Cyfrif Pennau) Ion 22	Rhagamcanion - Cyfanswm Disgyblion (Cyfrif Pennau) Ion 23	Rhagamcanion - Cyfanswm Disgyblion (Cyfrif Pennau) Ion 24	Rhagamcanion - Cyfanswm Disgyblion (Cyfrif Pennau) Ion 25
Ysgol Y Felin	222	218	220	217	217	215

4. Nid oes manylion digonol yn y ddogfen ymgynghori am sut byddai'r cynnig yn cryfhau neu'n newid effeithiolrwydd y ddarpariaeth neu'r safonau yn yr ysgol. Er enghraifft, er bod y ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at fanteision y 'Ddarpariaeth Drochi Gynnar drwy Gyfrwng y Gymraeg', nid yw'n darparu manylion digonol am effaith bosibl hyn yn yr ysgol benodol hon. Yn ogystal, nid oes gan y ddogfen ddigon o wybodaeth am sut y byddai darparu dysgu yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod sylfaen yn gwella'r ddarpariaeth a'r dysgu i ddisgyblion yr ysgol hon.

Ymateb yr ALI

Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol sicrhau deilliannau sy'n gwella'n barhaus.

Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â chanlyniadau Llywodraeth Cymru yn ogystal â tharged Llywodraeth Cymru ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith o 4 blwydd oed, ar sail yr addysg yn y Cylch. Felly mae hyn yn sicrhau bod holl blant y Cyfnod Sylfaen yn y dyfodol yn ddwyieithog erbyn eu bod yn 7 oed.

Mae'r Bil Cwricwlwm hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer y cwricwlwm newydd gan fod y Gymraeg yn elfen fandadol o gwricwlwm ysgol neu leoliad ar gyfer plant neu ddisgyblion o 3 oed a bydd Saesneg yn fandadol o 7 oed

Nid oes amheuaeth ynghylch manteision addysgu trochi yn addysgol ac yn wybyddol. Yng ngeiriau'r Athro Colin Baker

“Language among young children is caught rather than taught. The process is not learning but acquisition”

Mae strategaeth Cymraeg 2050 hefyd yn nodi'n glir mai addysg drochi Gymraeg lawn yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o greu unigolion sydd â'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Ein gweledigaeth yw galluogi pob dysgwr i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg a defnyddio'r iaith yn hyderus mewn bywyd bob dydd. Mae addysgu trochi yn y blynyddoedd cynnar yn gwneud hyn yn bosibl. Yna bydd disgyblion Ysgol y Felin yn cael cyfle i barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg hyd at ddiwedd CA2.

5. *Nid yw'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'n benodol a fydd y ddarpariaeth iaith ar gyfer y disgyblion hyn yn newid, ac, os felly, pa effaith y gallai hyn ei chael ar ddisgyblion AAA.*

Ymateb yr ALI

Fel y nodwyd ym **mhwynt 5, tudalen 20** uchod, nid yw'r cynnig yn effeithio ar y trefniadau presennol yn yr Uned Arbennig yn Ysgol y Felin.

Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd.

O ran y cynnig hwn, bydd y gefnogaeth a roddir yn yr ysgolion i'r plant presennol sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysgu ynddi ar hyn o bryd. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd holl ddisgyblion y dyfodol yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra i'w hanghenion.

Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi'i datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol a sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni.

Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.

Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol neu uned arbenigol i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad prif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni leoliad arall. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion, megis awtistiaeth, namau synhwyrdd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Phlant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser. Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol.

Ymgynghori â'r Disgyblion

Dogfen Ymgynghori Plant a Phobl Ifanc

Darparwyd fersiwn Plant a Phobl Ifanc o'r Ddogfen Ymgynghori i'r ysgol i'w dosbarthu i bob disgybl.

Ymgynghoriad Disgyblion

Ysgol: Ysgol y Felin

Dyddiad: 18/05/21

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan: Ymgynghorydd Cymorth
Addysg

Y sawl a gafodd eu cyfweld: 14 disgybl (cynhaliwyd ar-lein
oherwydd Coronafeirws)

Sylwadau a nodwyd yn ystod y Digwyddiad Ymgynghori â Disgyblion:

1. Ydych chi'n gwybod y gallai fod newidiadau i'ch ysgol?

Ydw: 14	Nac ydw: 0
---------	------------

2. A oes unrhyw beth rydych yn edrych ymlaen ato/yn bryderus amdano?

Edrych ymlaen	Pryderus
Roedd pob disgybl yn cytuno bod y newid hwn er gwell ac yn croesawu'r newid	Pryder am y gefnogaeth i blant gartref gyda'u Cymraeg – i deuluoedd di-Gymraeg
Mae gallu siarad dwy iaith yn ifanc yn ei gwneud hi'n haws dysgu ieithoedd eraill e.e., yn yr ysgol uwchradd. (<i>'Mae fy chwaer bellach yn siarad</i>	Gallai'r hyn ddigwyddodd yn y gorffennol ddigwydd eto –

Ffrangeg a Sbaeneg hefyd') – mae dod yn amlieithog yn haws os ydych chi'n ddwyieithog

Pawb yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg

Nodwyd cyfeiriad at y Cwricwlwm newydd a sut mae'r ymgynghoriad hwn yn cefnogi cysyniad 'Cynefin' a pherthyn. (*'Mae hyn yn amseru da'*)

Mae gallu siarad Cymraeg yn golygu y gallech gael gwell swydd

Mae gallu siarad Cymraeg yn golygu y gallech gael swydd yn haws yng Nghymru. Mae'n bwysig ym myd gwaith

Ers talwm doedd dim hawl gan blant i siarad Cymraeg, a dyna pham nad oes llawer yn siarad Cymraeg nawr. Nid ydym am i hynny ddigwydd eto.

Dywedodd disgyblion sydd yn y 'Ffrwd Gymraeg' ar hyn o bryd eu bod yn hapus iawn.

Mae'n gyfle da i gael pob plentyn 3 oed i siarad Cymraeg. Wedyn byddant yn gallu siarad Cymraeg am byth.

Dywedodd disgyblion y ffrwd Gymraeg pa mor lwcus maent wedi bod i gael mynychu'r ffrwd Gymraeg gan eu bod bellach yn ddwyieithog ac yn hapus iawn.

h.y. y Welsh Not. Fodd bynnag, atebodd disgybl arall gan ddweud na fydd yn digwydd eto gan fod gormod yn gallu siarad Cymraeg nawr

Hapus iawn y bydd pob disgybl yn cael cyfle i siarad Cymraeg	
--	--

3. Beth hoffech chi ei gadw yr un peth?

Cadw'r un dosbarthiadau h.y. cadw plant gyda'i gilydd yn eu dosbarthiadau presennol

Athrawon i aros yr un peth

Parhau i wobrwyo'r plant sy'n gwneud eu gorau i siarad Cymraeg

Pob poster ysgol i fod yn ddwyieithog

4. Sut hoffech chi fod yn wahanol?

- Dim ymatebion i'w nodi

Sylwadau pellach:

- Gall myfyrwyr Pwylaidd helpu i ddysgu Pwyleg i ddisgyblion
- Pryder am y plant sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg

Opsiynau Eraill

Yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol, rhoddwyd cyfle i randdeiliaid gyflwyno opsiynau eraill i'w hystyried. Roedd yr unig opsiynau eraill a dderbyniwyd mewn perthynas â'r sefyllfa bresennol, fel nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.